

BWLETIN POLISI CYTÛN

CYTÛN POLICY BULLETIN

APRIL 2014 / EBRILL 2014



GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL YN GWELLA LEDLED CYMRU

Mae adroddiad newydd yn dangos bod gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru'n gwella.

Mae'r adroddiad, sy'n ystyried y cynnydd hyd yn hyn yn erbyn nodau Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, yn dangos bod mwy o wasanaethau iechyd meddwl lleol bellach ar gael, a bod gofal yn cael ei gynllunio'n well o amgylch anghenion yr unigolyn. Mae Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) yn ddeddfwriaeth unigryw a luniwyd fel fframwaith cyfreithiol i wella gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru, gan wneud mwy o wasanaethau lleol ar gael, a sicrhau bod pobl â phroblemau iechyd meddwl sydd angen triniaeth ysbyty yn cael cydgysylltydd gofal a chynllun gofal a thriniaeth.

Mae'r adroddiad yn dangos, ers i'r Mesur ddod i rym yn 2012:

- Mae mwyafrif y bobl (89.9%) sydd angen cynllun gofal a thriniaeth wedi cael un, ac mae cynnydd wedi bod yn nifer y gwasanaethau lleol sydd ar gael i bobl, fel cyrsiau mynediad agored a grwpiau cymorth.
- Mae gwelliant wedi bod mewn amseroedd aros ar gyfer asesiad, i'r fath raddau fel bod y targed wedi gostwng o'r targed blaenorol o 56 diwrnod ar gyfer cyfeirio at asesiad, i 28 diwrnod (Hydref 2013).
- Mae nifer cyfredol yr ymarferwyr iechyd meddwl sylfaenol lleol fesul 20,000 o bobl wedi cynyddu i 1.96, ac mae hyn bron ddwywaith y gymhareb a awgrymir o 1 fesul 20,000.
- Mae gan bob bwrdd iechyd drefniadau i ddarparu eiriolwr i gefnogi pob unigolyn a dderbynnir i ysbyty oherwydd problem iechyd meddwl.

- Dywedodd 97% o'r rhai a ymatebodd i arolwg Mind Cymru bod eu profiad o eiriolaeth yn rhagorol neu'n dda y rhan amlaf.

Bydd adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi cyn mis Ionawr 2016.

GWEITHREDU I DDARPARU MWY O GARTREFI

Mae'r Gweinidog Tai ac Adfywio, Carl Sargeant, yn mynd ati o'r newydd i gynyddu'r cyflenwad tai yng Nghymru.

Dywedodd y Gweinidog wrth Aelodau'r Cynulliad mai ei brif flaenoriaeth yw cynyddu'r cyflenwad o gartrefi y mae angen mawr amdany'n nhw – tai fforddiadwy a thai'r farchnad. Mae wedi cyhoeddi:

- Bod Llywodraeth Cymru'n gwneud cynnydd da gyda'r targed o ddarparu 7,500 o dai mwy fforddiadwy a defnyddio'r 5,000 o dai sydd ar hyn o bryd yn wag yn y sector preifat, ac yn benderfynol o wneud mwy hefyd.

- Bydd yn penodi Cynghorydd Cyflenwad Tai a fydd yn cydweithio ag adeiladwyr cartrefi, perchnogion tir, awdurdodau lleol a chymdeithasau tai. Bydd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda charfanau perthnasol i bennu union amodau a chwmpas y swydd hon.

Bydd targed newydd yn cael ei osod hefyd sef 10,000 o dai fforddiadwy newydd yn ystod tymor y Llywodraeth hon. Er mwyn gallu cyrraedd y targed uchelgeisiol hwn, gosodir cytundeb darparu gyda Chartrefi Cymunedol Cymru (CCC). Bydd y cytundeb yn nodi'n glir ymrwymiadau'r ddwy garfan, Llywodraeth Cymru a CCC.

- Bydd £5m yn cael ei neilltuo i ariannu Cronfa Eiddo Canol Tref, a fydd yn canolbwyntio ar adfywio canol trefi a chynyddu'r cyflenwad tai.

LANSIO CYTUNDEB CYFLENWI TAI

Mae Llywodraeth Cymru a Chartrefi Cymunedol Cymru wedi dod ynghyd i lansio cytundeb Darparu Cyflenwad Tai i ddarparu 10,000 o gartrefi fforddiadwy yn ystod y Llywodraeth hon.

Mae'r cytundeb yn rhestru'n glir ymrwymiadau'r ddwy ochr. Tra mae 60% o darged tai fforddiadwy Llywodraeth Cymru o 7,500 eisoed wedi cael eu codi yn nwy flynedd gyntaf y Llywodraeth hon, y rhan fwyaf ohonyn nhw wedi eu darparu gan gymdeithasau tai, mae'r angen am dai newydd yn dal i fod yn llawer mwy na'r cyflenwad o dai sydd ar gael.

Mae'r Gweinidog Tai ac Adfywio, Carl Sargeant, wedi ymateb trwy gynyddu'r targed ar gyfer tymor y Llywodraeth hon i 10,000 o dai fforddiadwy ychwanegol, ac wedi apelio ar gymdeithasau tai i wneud popeth yn eu gallu i gyrraedd y targed hwn.

Nod y cytundeb yw cefnogi'r targed uwch, gan nodi ymrwymiadau Llywodraeth Cymru a'r sector cymdeithasau tai ar gyfer gweddill y weinyddiaeth hon.

GWASANAETHAU NEWYDD AR GYFER RHEILFFYRDD Y CAMBRIAN A RHEILFFORDD CALON CYMRU

Cyhoeddodd Gweinidog Trafnidiaeth Cymru, Edwina Hart, y bydd trenau ychwanegol bob awr ar yr oriau brig rhwng Aberystwyth a'r Amwythig ymysg y gwasanaethau ychwanegol a fydd yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru ar reilffyrdd y Cambrian a rheilffordd Calon Cymru.

Bydd pedwar o wasanaethau dwyffordd ychwanegol yn rhedeg rhwng Aberystwyth a'r Amwythig, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, gyda gwasanaethau bob awr ar gyfer oriau brig y bore a'r prynhawn. Bydd dau wasanaeth dwyffordd newydd hefyd ar ddydd Sul, a gwelliant i'r gwasanaethau gyda'r nos ar Arfordir y Cambrian rhwng y Bermo a Phwllheli.

Ar reilffordd Calon Cymru, fe fydd gwasanaethau ychwanegol rhwng Llanymddyfri a Thregŵyr/ Abertawe a rhwng Llandrindod ac Amwythig/ Crewe, gan gynnig cyfleoedd da yn y bore i gymudwyr o ddydd Llun i ddydd Gwener. Bydd gwasanaethau dwyffordd eraill yn cael eu hamseru i fod yn fwy cyfleus, ac mae Fforwm Rheilffordd Calon Cymru yn derbyn cyllid i archwilio'r posibilrwydd o wneud gwelliannau pellach i'r rheilffordd .

Bydd y gwasanaethau newydd yn creu 20 o swyddi newydd ar gyfer staff y trenau ac yn y depo. Bydd y newidiadau, a fydd yn cael eu treialu am gyfnod cychwynnol o dair blynedd gychwynnol , yn dechrau ym mis Mai 2015.

HELPU DROS 1,700 O GYN-GAMDDEFNYDDWYR SYLWEDDAU I GAEL GWAITH AC ADDYSG

Mae adroddiad newydd wedi dangos bod prosiect Llywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop wedi helpu 862 o gyn-gamdddefnyddwyr sylweddau i gael gwaith a 923 arall i gael mynediad at addysg bellach.

Dangosodd gwerthusiad o'r prosiect Mentora Cymheiriaid gan Brifysgol De Cymru fod y prosiect wedi bodloni bron pob un o'i dargedau ac yn cymharu'n ffafriol â ffigurau canlyniadau cynnar gan Raglen Waith yr Adran Gwaith a Phensiynau. Sefydlwyd prosiect Mentora Cymheiriaid Cymru i helpu pobl â phroblemau camdddefnyddio sylweddau i gael gwaith neu fynediad at addysg bellach, gyda chymorth 'mentoriaid cymheiriaid', llawer ohonyn nhw wedi dioddef o broblemau eu hunain gyda chyffuriau neu alcohol.

Llywodraeth Cymru yw noddwr y prosiect Cymru gyfan hwn sy'n werth £20m (£11.1m o gyllid grant a £9.3m o gyllid cyfatebol) a ddechreuodd ym mis Hydref 2009. Caiff y gwasanaeth ei ddarparu gan chwech o wahanol asiantaethau trydydd sector ledled Cymru, a thros bedair blynedd mae wedi helpu 9,627 o unigolion, gyda dros hanner y rheini'n llwyddo i gael o leiaf un canlyniad positif.

Yn ôl yr adroddiad, roedd y darparwyr wedi datblygu cysylltiadau effeithiol â chyflogwyr ac asiantaethau cyflogi, wedi hyfforddi rhai cleientiaid i fod yn fentoriaid cymheiriaid i gefnogi eraill, ac wedi cynnig amrywiaeth o gyrsiau, cyfleoedd gwirfoddoli neu brofiad gwaith.

Mae'n bosib gweld yr adroddiad gwerthuso [yma](#).

CYFRADDAU AILGYLCHU CYMRU'N PARHAU I GODI

Yn ôl y ffigurau swyddogol diweddaraf, mae cartrefi a chynghorau lleol Cymru'n ailgylchu mwy nag erioed, ac yn cynhyrchu llai o wastraff bagiau du,.

Rhwng mis Gorffennaf a mis Medi y llynedd, cyrhaeddodd y cyfraddau ailgylchu, aildefnyddio a chompostio 57% yng Nghymru, yr uchaf yn y D.U.

Mae'r ffigurau'n dangos bod gwastraff bagiau du wedi syrthio 6% i 52kg y person o'i gymharu â'r un chwarter yn 2012.

Y flwyddyn ddiwethaf, cyrhaeddodd Cymru ei tharged statudol o ailgylchu 52% o'r gwastraff a gasglwyd, a'r targed nesaf yw ailgylchu 58% o'r gwastraff sy'n cael ei gasglu gan awdurdodau lleol yn 2015/16.

Mae'n bosib gweld y ffigurau [yma](#).

GERAINT HOPKINS

SWYDDOG POLISI

CYTŪN – EGLWYSI YNGHYD YNG NGHYMRU

029 2046 4378

geraint@cytun.org.uk